



Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL

Datblygwyd fframwaith hunanasesu effeithlonrwydd ESOL i gefnogi darparwyr a phartneriaethau i ystyried ansawdd, effeithlonrwydd a pha mor ymatebol yw darpariaeth ESOL.



Tabl Cynnwys

Dechreuwch yma: Cliciwch drwy bob adran i ymchwilio Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL.

- 03** Cyflwyniad i Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL
- 04** Sut y cafodd y fframwaith ei ddatblygu?
- 05** Perthynas gyda datganiad deilliannau ESOL
- 06** Beth mae'r fframwaith yn ei gynnwys?
- 10** Pwy ddylai ddefnyddio'r fframwaith?
- 11** Sut i ddefnyddio'r fframwaith
- 14** Defnyddio'r canfyddiadau
- 14** Dehongli'r disgrifwyr
- 16** Blaenoriaeth deilliannau ar gyfer darpariaeth ESOL a gyllidir gan Medr
- 21** Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL

Cyflwyniad i Fframwaith Hunanasesu Effeithiolrwydd ESOL

Am y fframwaith hwn

Datblygwyd Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL i gefnogi darparwyr a phartneriaethau i ystyried ansawdd, effeithlonrwydd a pha mor ymatebol yw darpariaeth Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill (ESOL).

Bwriadwyd y fframwaith i annog ystyriaeth, trafodaeth a gwelliant parhaus wedi eu strwythuro.

Nid yw'n fframwaith arolygu, fframwaith rheoli perfformiad nac yn ofynnol o ran cydymffurfio. Nid oes disgwyl i ddarparwyr lenwi na chyflwyno'r fframwaith i Medr, Estyn nac unrhyw sefydliad arall.

Yn hytrach mae'n adnodd a gyd-gynhyrchwyd gyda darparwyr a rhanddeiliaid i gefnogi hunanwerthuso, cynllunio a datblygu gwasanaeth.

Gellir defnyddio'r fframwaith ochr yn ochr â phrosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd sy'n bodoli, gan gynnwys y rhai yr ymgwymerir â hwy i fodloni gofynion Medr, i gefnogi ystyriaeth fwy dwys ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth ESOL.

Mae'r fframwaith yn cydnabod bod darpariaeth ESOL effeithiol yn ymestyn tu hwnt i addysgu a dysgu yn unig. Mae'n adlewyrchu'r ffactorau ehangach sy'n cyfrannu at brofiadau a deilliannau llwyddiannus i ddysgwyr, gan gynnwys mynediad, cynhwysiant, ymgysylltu â dysgwyr, cyflogaeth, llwybrau cynnydd, gweithio mewn partneriaeth a datblygu gweithlu.



Sut y cafodd y fframwaith ei ddatblygu?

Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Medr i weithio gyda darparwyr, ymarferwyr, rhanddeiliaid a dysgwyr ESOL i gyd-greu'r adnodd hwn. Mae'r fframwaith yn defnyddio tystiolaeth a dealltwriaeth a gasglwyd trwy broses ddatblygu gydweithredol, gan gynnwys:

- adolygiad o dystiolaeth, polisi ac ymarfer perthnasol yn ymwneud â darpariaeth ESOL effeithiol yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig, gan gynnwys ffactorau sy'n cefnogi mynediad, cyfranogiad, cynnydd a deilliannau dysgwyr.
- cyfweiliadau a thrafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid ESOL i archwilio ymarfer, heriau a blaenoriaethau presennol ar draws cyd-destunau cyflawni gwahanol.
- grwpiau ffocws gyda dysgwyr ESOL i roi llais dysgwyr yn ganolog wrth ddatblygu'r fframwaith trwy archwilio cymhelliant, profiadau o'r ddarpariaeth, canfyddiadau o ansawdd ac effeithiolrwydd, cynnydd a blaenoriaethau ar gyfer gwelliant yn y dyfodol.

- cyfres o weithdai gyda grŵp ymgynghorol strategol yn cynnwys cynrychiolwyr darparwyr ESOL a sefydliadau sy'n rhanddeiliaid i fod yn sail i'r fframwaith, a mireinio ei strwythur, cynnwys ac iaith fel yr oeddent yn dod i'r amlwg.
- adborth manwl gan ddarparwyr a wnaeth dreialu'r fframwaith a rhannu eu profiad o'i ddefnyddio yn ymarferol, gan gynnwys ystyriaeth ar ei berthnasedd, defnyddioldeb a'i weithredu o fewn y prosesau hunanwerthuso a gwella ansawdd presennol.

Trwy'r gweithgareddau hyn, dynododd a mireiniodd Dysgu a Gwaith y themâu allweddol sy'n dylanwadu ar effeithiolrwydd ESOL. Datblygodd Dysgu a Gwaith y fframwaith i adlewyrchu ehangder y ffactorau sy'n cyfrannu at ddarpariaeth ESOL effeithiol, gan gynnwys mynediad a chynhwysiant, dysgu ac addysgu, deilliannau a chynnydd dysgwyr, gweithio mewn partneriaeth a datblygu gweithlu. Bwriad y Fframwaith sy'n deillio o hyn yw rhoi fframwaith ymarferol i ystyried, trafod a gwella'n barhaus ar draws amrywiaeth eang o ddarparwyr ESOL a lleoliadau cyflwyno.

Perthynas â'r datganiad deilliannau ESOL

Ochr yn ochr â'r fframwaith, datblygodd y prosiect ddatganiad deilliannau ESOL sy'n nodi'r deilliannau sy'n cael blaenoriaeth i ddarpariaeth ESOL sy'n cael ei ariannu gan Medr.

Seiliwyd y datganiad deilliannau ar yr un broses ddatblygu â'r fframwaith, gan gynnwys cyfweiliadau a thrafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid ESOL am ddibenion, deilliannau ac effaith ehangach darpariaeth ESOL.

Mae'r datganiad deilliannau yn dynodi pedwar deilliant sy'n cael blaenoriaeth:

- mynediad gwell a thecach at addysg iaith.
- gwell sgiliau iaith Saesneg ar gyfer bywyd bob dydd.
- cynnydd a llesiant dysgwyr yn gadarnhaol.
- system ESOL weladwy, ddiwniad gyda chysylltiadau da.

Mae'r parthau a'r is-barthau yn y fframwaith wedi eu dylunio i adlewyrchu'r amrywiaeth o ffactorau sy'n cyfrannu at gyflawni'r deilliannau hyn. Gall darparwyr a phartneriaethau felly ei gweld yn ddefnyddiol defnyddio'r fframwaith ochr yn ochr â'r datganiad deilliannau ESOL wrth gynnal gweithgareddau hunan-werthuso, gwella ansawdd a chynllunio.

Mae datganiad llawn deilliannau ESOL i'w gael ar dudalen 16 y ddogfen yma.




Beth mae'r fframwaith yn ei drafod

Rhennir y fframwaith yn bum parth sy'n adlewyrchu elfennau allweddol o ddarpariaeth ESOL effeithiol. Mae parth yn faes eang o ymarfer ESOL, ac mae pob parth yn cael ei rannu yn nifer o is-barthau mwy penodol.

Mynediad, ymgysylltu a chynhwysiant:

Mae'r parth hwn yn canolbwyntio ar sut y mae dysgwyr yn cael mynediad at ddarpariaeth ESOL a pha mor effeithiol yw darparwyr wrth ymateb i anghenion amrywiol. Mae'n archwilio allestyn, cyfeirio, asesiad cychwynnol a lleoli, rhwystrau sy'n atal cyfranogi, a chyfraniad ymgysylltu â dysgwyr wrth wella mynediad a chynhwysiant.



Addysgu, dysgu a chwricwlwm:

Mae'r parth hwn yn archwilio ansawdd a pherthnasedd y ddarpariaeth ESOL. Mae'n ystyried dylunio'r cwricwlwm, addysgu ac asesu yn canolbwyntio ar y dysgwr, cefnogaeth i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol, y Gymraeg a diwylliant Cymru, a chyfleoedd i ddysgwyr gael dylanwad ar eu profiad dysgu.



Deilliannau a chynnydd dysgwyr:

ae'r parth hwn yn canolbwyntio ar y deilliannau y mae dysgwyr yn eu cyflawni a sut y gall darparwyr gefnogi eu cynnydd. Mae'n archwilio gosod nodau, mesur y dysgu a'r deilliannau ehangach, llwybrau cynnydd, gwybodaeth a chyfarwyddyd, a chefnogaeth ar gyfer gwaith a dysgu pellach.

Systemau, partneriaethau a llwybrau:


Mae'r parth hwn yn edrych ar sut y mae darparwyr yn cynllunio a threfnu darpariaeth ESOL ar draws y system ehangach. Mae'n ystyried gweithio mewn partneriaeth, cynllunio strategol, defnyddio data a gwybodaeth, a datblygu llwybrau dysgwyr rhesymegol i, trwy a thu hwnt i'r ddarpariaeth ESOL.

Capasiti gweithlu a darparwyr:

Mae'r parth hwn yn archwilio capasiti darparwyr i ddarparu ESOL o safon uchel. Mae'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw gweithlu, datblygiad proffesiynol, cefnogaeth i wirfoddolwyr, rhannu adnoddau a chyfnwrid gwybodaeth ar draws y sector ESOL.



O fewn pob parth, mae nifer o agweddau penodol ar ymarfer yn cael eu disgrifio ar draws pedair lefel datblygu:




Bwriadwyd i'r lefelau hyn ddarlunio taith ddatblygiadol eang yn hytrach na set o gategorïau penodol. Gall darparwyr gydnabod nodweddion o fwy nag un lefel yn yr un maes ymarfer.

Hawkar Salih

"Mae Abertawe mor bwysig i fi. Mae'n lle a wnaeth fy ngweld ar fy isaf. Ond fe wnaeth cynifer o bobl fy helpu a wnes i byth anghofio fy mreuddwydion. Beth bynnag y credwn ynddo, gallwn gyflawni. Nid yw o bwys o ble y deawn neu bwy ydym – does dim byd yn amhosibl os rhoddwn ddigon o ymdrech i rywbeth rydym eisiau ac yn gweithio'n galed tuag at ein nodau. Gwnewch gynlluniau, gweithiwch armdano a byddwch yn ei gyflawni."



Gweld stori
Hawkar



Dechrau pennod newydd

Daeth Hawkar i Abertawe gan edrych am ddiogelwch, sefydlogrwydd a chyfle i adeiladu dyfodol mwy disglair drwy addysg.

Canfod ei lais

Dechreuodd ddysgu Saesneg drwy Gymorth Ceiswyr Lloches Abertawe ac ymrestrodd yn diweddarach ar gyrsiau ESOL, TGAU a Lefel AS yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, yn adeiladu'r sgiliau a'r hyder i symud ymlaen i brifysgol.

Troi uchelgais yn gyflawni

Gan adeiladu ar ei lwyddiant mewn addysg uwch, symudodd ymlaen i radd Meistr Fferylliaeth (MPharm) ym Mhrifysgol Abertawe.

Rhoi yn ôl

Rhoddodd Hawkar yn ôl i'w gymuned drwy wirfoddoli fel cyfieithydd yn Matt's Cafe a helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid eraill i weithio i gyflawni eu huchelgais.

Gyrfa newydd

Cwblhaodd Hawkar ei radd MPharm ym Mhrifysgol Abertawe ac mae'n awr yn dilyn hyfforddiant sylfaen fferyllfa, gan ddangos nad yw'n rhaid i lle y dechreuwch mewn bywyd benderfynu lle byddwch yn symud ymlaen iddo.

Pwy ddylai ddefnyddio'r fframwaith?

Gall amrywiaeth o staff sy'n ymwneud â chynllunio, rheoli, cyflawni neu gefnogi darpariaeth ESOL ddefnyddio'r fframwaith, gan gynnwys:

- Uwch arweinwyr
- Rheolwyr cwricwlwm
- Rheolwyr ansawdd
- Trefnwyr ESOL
- Tiwtoriaid arweiniol
- Tiwtoriaid
- Staff ymgysylltu â dysgwyr
- Staff sy'n cynrychioli eu sefydliad mewn partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaethau ESOL eraill

Er bod y fframwaith wedi ei ddatblygu yn bennaf fel offeryn hunan-asesu i ddarparwyr unigol, gall rhai parthau ac is-barthau hefyd gael eu defnyddio gan bartneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned a phartneriaethau ESOL lleol eraill i ystyried effeithiolrwydd y cynnig ESOL yn gyffredinol, trefniadau partneriaeth a llwybrau dysgwyr ar draws ardal.

Ni fydd pob adran yr un mor berthnasol i bob unigolyn. Dylai defnyddwyr ganolbwyntio ar y parthau a'r is-barthau sydd fwyaf ystyrlon i'w swyddogaeth a'u profiad.

Nid oes unrhyw ddisgwyliad i bob cyfranogwr gwblhau pob adran o'r fframwaith. Er enghraifft:

- efallai mai tiwtoriaid fydd yn y sefyllfa orau i roi sylw am addysgu, dysgu, cwricwlwm ac ymgysylltu â dysgwyr;
- gall rheolwyr fod â mwy o wybodaeth am gynllunio strategol, partneriaethau, datblygu cwricwlwm a gweithlu a threfniadau cynnydd;
- gall staff ansawdd fod â dealltwriaeth benodol o ran deilliannau dysgwyr, tystiolaeth a phrosesau hunan-werthuso.



Sut i ddefnyddio'r fframwaith

Gall y fframwaith gael ei ddefnyddio yn unigol neu fel rhan o broses grŵp. Er bod darparwyr yn cael eu hannog i addasu'r broses i weddu i'w trefniadau hunan-werthuso, gwella ansawdd a chynllunio presennol, gall dull nodweddiadol gynnwys:

Ystyriaeth unigol

Cyfranogwyr yn adolygu'r adrannau perthnasol ac yn dynodi pa ddisgrifiwr sy'n adlewyrchu'r ymarfer presennol orau.

Dylai'r dyfarniadau fod ar sail y dystiolaeth sydd ar gael pan fydd yn bosibl.

Gall hyn gynnwys:

- adborth dysgwyr
- data deilliannau dysgwyr
- canfyddiadau sicrwydd ansawdd
- gwybodaeth partneriaeth
- data gweithlu
- enghreifftiau o ymarfer a darpariaeth

Nid oes dull penodedig o gwblhau'r fframwaith. Gall darparwyr ddewis defnyddio pa bynnag ddull sy'n gweddu orau i'w prosesau hunan-werthuso presennol. Er enghraifft, gall defnyddwyr roi tic wrth y disgrifwyr sy'n adlewyrchu'r ymarfer presennol orau, ddefnyddio dull graddio Coch-Oren-Gwyrdd, neu amlygu'r datganiadau perthnasol, cofnodi sylwadau a thystiolaeth yn uniongyrchol yn y fframwaith.

Yn bwysicaf oll, dylai'r pwyslais fod ar gefnogi ystyriaeth ystyrlon a gwelliant yn hytrach na chreu 'sgôr'.

Sut i ddefnyddio'r fframwaith

Cam 2



Trafod a chymharu

Cyfranogwyr yn cymharu safbwyntiau a thrafod meysydd lle maent yn cytuno ac anghytuno. Gan ddibynnu ar eu swyddogaeth, gall cydweithwyr fod â safbwyntiau gwahanol am yr un maes o ymarfer. Mae gwahaniaethau barn yn aml yn ganfyddiadau gwerthfawr ynddynt eu hunain a gallant ysgogi trafodaeth ddefnyddiol am amrywiaeth o ran profiad, dealltwriaeth ac ymarfer ar draws y sefydliad.

Gallant helpu i ddeall:

- ble mae'r ymarfer yn amrywiol;
- ble y gall cyfathrebu gael ei gryfhau;
- ble gall tybiaethau amrywio;
- ble y byddai archwiliad pellach o gymorth.

Gall y fframwaith hefyd gynnig sail ddefnyddiol ar gyfer trafodaeth rhwng darparwyr trwy gyfarfodydd Rhwydwaith ESOL lleol a rhanbarthol, gan helpu i rannu ymarfer effeithiol, archwilio heriau cyffredin a chefnogi gwelliant trwy'r sector.



Sut i ddefnyddio'r fframwaith


Dynodi blaenoriaethau

Y cam olaf yw dynodi cryfderau a meysydd i'w datblygu.

Gall darparwyr ddymuno ystyried cwestiynau tebyg i:

- Beth ydym ni'n ei wneud yn neilltuol o dda?
- Pa feysydd ydyn ni'n llai hyderus amdanyn nhw?
- Pa feysydd fyddai'n cael yr effaith mwyaf ar ddysgwyr petaent yn cael eu gwella?
- Pa gamau gweithredu y gellir eu cyflawni'n realistig?
- Pa dystiolaeth sy'n cefnogi ein barn?

Cam 3



Defnyddio'r canfyddiadau

Gall darparwyr ddefnyddio canfyddiadau o'r fframwaith mewn ffyrdd gwahanol gan ddibynnu ar eu trefniadau lleol.

Mae'r enghreifftiau'n cynnwys:

- bod yn sail i adroddiadau hunan-werthuso;
- bod yn sail i ddatblygu ansawdd neu gynlluniau gwelliant;
- cefnogi cynllunio cwricwlwm;
- dynodi blaenoriaethau o ran datblygu gweithlu;
- bod yn sail i drafodaethau partneriaeth;
- cefnogi trafodaethau mewn cyfarfodydd Rhwydwaith ESOL;
- cefnogi adolygiadau gwasanaeth;
- tystiolaeth o gryfderau a meysydd i'w datblygu.

Ni fwriadwyd i'r fframwaith greu gofynion cofnodi ychwanegol. Dylai darparwyr ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r prosesau hunan-werthuso, cynllunio a gwella ansawdd presennol pryd bynnag y mae hynny'n bosibl.

Dehongli'r disgrifwyr

Esboniadol yw'r disgrifwyr nid cyfarwyddol. Nid oes angen i ddarparwr ddangos pob elfen mewn colofn i gyrraedd y lefel honno o ddatblygiad. Yn yr un modd, efallai bod enghreifftiau o ymarfer effeithiol na chyfeirir atynt yn benodol yn y fframwaith.

Pwysigrwydd cyd-destun lleol. Mae darparwyr yn gweithredu mewn amgylchiadau gwahanol, yn gwasanaethu poblogaethau gwahanol o ddysgwyr ac â mynediad at wahanol adnoddau a phartneriaethau. Dylai defnyddwyr, felly, ddefnyddio doethineb proffesiynol wrth ddehongli disgrifwyr ac ystyried eu hymarfer eu hunain.

Nid mewn rhoi sgôr mae gwerth y fframwaith, ond yn y sgysiau, ystyriaeth a'r gweithgareddau gwella y mae yn eu cefnogi.





Gweld stori a ffilm
animeiddio Ida

Ida Mirzaee

“Caredigrwydd y bobl a wnaeth fy nghroesawu a fy nghefnogi pan gyrhaeddais fel ceisiwr lloches, o athrawon a chyd-ddysgwyr i ffrindiau newydd, sydd wedi gwneud popeth a gyflawnais yn bosibl. Fe wnaeth eu cefnogaeth fy helpu i ganfod fy lle mewn gwlad, diwylliant a ffordd o fyw newydd. Rwy'n gobeithio y bydd fy stori yn ysbrydoli eraill i ddilyn eu huchelgais ac ymchwilio cyfleoedd i astudio, hyfforddi ac adeiladu gyrfa yn y maes maent yn angerddol amddano.”



Taith newydd

Cyrhaeddodd Ida Gymru yn 2020 a wynebu heriau dechrau bywyd newydd yn ystod pandemig Covid-19.

Canfod hyder a chysylltiad

Rhoddodd mynychu dosbarthiadau sgwrsio anffurfiol yng Nghyngor Ffoaduriaid Cymru ymdeimlad newydd o berthyn a chysylltu iddi, gan fod yn sbardun i'w hyder i symud ymlaen i ddysgu ESOL mwy ffurfiol.

Adeiladu sgiliau, hyder a chyfeillgarwch newydd

Wedyn symudodd Ida ymlaen i ddosbarthiadau ESOL ffurfiol yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro, gan wella ei Saesneg, tyfu mewn hyder a ffurfio cyfeillgarwch newydd

Agor drysau newydd i addysg uwch

Enillodd ysgoloriaeth i astudio gradd MA mewn Animeiddio ym Mhrifysgol De Cymru, gan greu cyfleoedd newydd ar gyfer ei dyfodol.

Llwybr i gyflogaeth

Gan ddefnyddio'r sgiliau a'r cymwysterau a gafodd drwy ei hastudiaethau, sicrhodd IDA swydd fel Dylunydd Graffig gyda Gyrfa Cymru a bu'n ffynnu yno byth ers hynny.

Deilliannau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ESOL a ariennir gan Medr

1 Mynediad gwell a thecach at addysg iaith

Mae oedolion sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu iaith priodol, waeth ble maent, beth yw eu hamgylchiadau, eu profiad addysgol blaenorol na ble maent yn cyrraedd. Cefnogir y deilliant hwn gan:

- **Ddarpariaeth hyblyg ac amrywiol** o ran dulliau darparu, dwyster, cyflymder, modd a lleoliad, gan gynnwys modelau hyfyw ar gyfer ardaloedd gwledig, arfordirol a rhai llai eu poblogaeth.
- **Cynhwysol ac ymgysylltu â'r dysgwyr**, gyda dulliau sy'n addas i anghenion a phrofiadau'r dysgwyr, gan gynnwys ymarfer ar sail trawma ac ymarfer cyfranogol.
- **Mynediad at Gymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill (WSOL)**, pan fydd yn briodol, gan gefnogi cymhathu a chyfranogiad mewn bywyd dwyieithog yng Nghymru a bodloni disgwyliadau rheoleiddiol.

"Pan wnaethon nhw sylweddoli mod i'n dysgu yn gyflym iawn ac nad dyna oedd y dosbarth cywir i fi, fe wnaethant roi cymorth un i un, gofal plant a chludiant fel y gallwn fynd i ddosbarth uwch."

- Dysgwr ESOL



Deilliannau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ESOL a ariennir gan Medr

2 Gwell sgiliau iaith Saesneg ar gyfer bywyd bob dydd

Y dysgwyr yn datblygu sgiliau Saesneg sy'n eu galluogi i gyfathrebu'n effeithiol a chynyddu eu hyder mewn cyd-destunau bob dydd, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau, dysgu, gwaith a bywyd cymunedol.

Cefnogir y deilliant hwn gan:

- **Darpariaeth hyblyg, gynhwysol**, fel y nodwyd dan Deilliant 1, yn galluogi dysgwyr i ddangos cynnydd ar gyflymder ac mewn ffordd sy'n cyd-fynd â'u nodau.
- **Addysgu, dysgu a chefnogaeth i ddysgwyr o safon uchel**, wedi ei seilio ar ddatblygu gweithlu penodol i ESOL a dynodi cadarn ar anghenion dysgwyr.
- **Cydnabod cynnydd rhannol, heb fod yn llinellol a heb ei achredu**, ochr yn ochr â llwyddiant wedi ei achredu, yn unol â dyheadau'r dysgwyr.

"O'r blaen, roeddwn angen rhywun i fy helpu gyda fy meddyg teulu, apwyntiadau neu gyfieithu. Nawr rwy'n gallu ei wneud fy hun a hefyd yn medru helpu fy mhlant gyda'r ysgol a gwaith cartref hefyd."

- Dysgwr ESOL



Deilliannau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ESOL a ariennir gan Medr

3

Cynnydd a llesiant dysgwyr yn gadarnhaol

Dysgwyr yn profi cynnydd ystyrlon sy'n adlewyrchu eu nodau a'u manau cychwyn ac yn cefnogi annibyniaeth a chyfranogiad yn y tymor hwy. Deilliannau cynnydd yn cynnwys:

- **gwell llesiant, hyder ac ymdeimlad o berthyn**, yn cydnabod diogelwch, sefydlogrwydd a chynhwysiant fel sylfeini ar gyfer dysgu.
- **cynnydd i ddysgu pellach**, gan gynnwys ESOL ar lefel uwch, addysg alwedigaethol, gwirfoddoli ac addysg bellach neu uwch prif ffrwd.
- **Cynnydd tuag at waith neu hunangyflogaeth**, pan fydd hyn yn cyd-fynd â dyheadau'r dysgwr.
- **Cyfranogi mwy yn y gymuned a mwy o gyswllt cymdeithasol**, gan gefnogi dinasyddiaeth weithredol a chymysgu.

"Rhoddodd ESOL yr hyder i mi siarad, dysgu'r iaith a dal ati gyda bywyd bob dydd. Fe wnes symud i swydd well yn y gwaith bob blwyddyn ac yn teimlo'n barod ar gyfer heriau newydd."

– Dysgwyr ESOL



Deilliannau sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ESOL a ariennir gan Medr

4 System ESOL weladwy, ddiwniad gyda chysylltiadau da

Y ddarpariaeth ESOL yn weladwy, yn drefnus ac wedi ei chysylltu'n effeithiol â'r seilwaith gwasanaethau cyhoeddus, addysg a gwaith ehangach yng Nghymru.

Cefnogir y deilliant hwn gan:

- **Llwybrau dysgwyr clir a hygyrch**, o'r cyswllt cyntaf ag ESOL hyd at ddysgu pellach, gwaith, gwirfoddoli a chyfranogi cymunedol.
- **Partneriaethau a chydlynu cryf** rhwng darparwyr ESOL, gwasanaethau cyhoeddus, cyflogwyr, sefydliadau cymunedol a darparwyr addysg eraill, gan alluogi teithiau rhesymegol i ddysgwyr a deilliannau a rennir.

"Nid dim ond am Saesneg oedd e. Fe wnes i ddysgu am fywyd yma, gwasanaethau, cyfleoedd a'r hyn y gallwn ei wneud nesaf."

– Dysgwyr ESOL




Yassmein Hussein

"Cyrhaeddais Brydain gyda'r un angerdd ac uchelgais sydd gen i heddiw, ond fe roddodd addysg oedolion fwy o ymwybyddiaeth a chariad cryfach at wybodaeth a chymuned i fi. Mae wedi cynyddu fy hyder, cefnogi fy mhlant a fy ysbrydoli i helpu pobl eraill i wneud yr un fath."



Gweld stori
Yassmein



Dechrau newydd

Mae Yassmein wedi ymgartrefu yng Nghaerdydd a datblygu cysylltiadau newydd gan greu sylfaen ar gyfer ei dyfodol yng Nghymru.

Croesawu addysg oedolion

Mae wedi cwblhau 13 cwrs addysg oedolion gyda Choleg Caerdydd a'r Fro a Chyngor Caerdydd, gan gynnwys dysgu fel teulu, rheoli straen a gwyddoniaeth, gan ddatblygu sgiliau a gwybodaeth newydd i gefnogi ei theulu.

Cefnogi teuluoedd a chymunedau

Rhannodd ei dysgu drwy greu rhwydwaith cymorth ar gyfer mamau plant niwroamrywiol a hyrwyddo manteision addysg oedolion.

O ysbrydoliaeth i uchelgais

Wedi ei hysbrydoli gan ei phrofiadau yn gwirfoddoli, mae Yassmein yn gweithio i sefydlu ei busnes pobi ei hun, gyda chynlluniau i greu gofod cymunedol sy'n dod â phobl ynghyd.

Creu effaith ar y gymuned

Daeth Yassmein yn eiriolydd gweithgar dros ei chymuned, gan ddysgu ei sgiliau a'i brwdfrydedd i ysbrydoli eraill. Mae'n awr yn gobeithio symud ymlaen i astudiaethau mewn seicoleg plant a busnes.



Fframwaith Hunanasesu Effeithlonrwydd ESOL



1 Mynediad, ymgysylltu a chynhwysiant Ffocws: Pwy all gael mynediad i ESOL a pha mor dda mae darpariaeth yn ymateb i anghenion amrywiol Dyddiad:			
Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cyfeirio, ymwybyddiaeth ac allestyn			
☐ Caiff gwybodaeth am gyfleoedd ESOL ei hyrwyddo fel mater o drefn drwy ddulliau cyfathrebu y darparydd ei hun (e.e. gwefan, prospectws). ☐ Mae peth rhwydweithio anffurfiol a rhannu gwybodaeth gyda darpar bartneriaid cyfeirio ac atgyfeirio ond mae hyn yn ad hoc a darniog. ☐ Caiff gwybodaeth ar gyrsiau ei gadw'n gyfredol ar <u>gronfa ddata Canfod Cwrs Gyrfa Cymru</u>.	☐ Caiff darpariaeth ESOL (ffurfiol ac anffurfiol) ei fapio ar draws yr ardal leol i gasglu'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfleoedd a gynigir gan wahanol ddarparwyr y gellir ei rhannu gyda dysgwyr. ☐ Caiff gwybodaeth am gyfleoedd ESOL ei rhannu fel mater o drefn gyda sefydliadau lleol a gwasanaethau allweddol sydd mewn cysylltiad â darpar ddysgwyr. Gall cyfeirio fod yn anghyson a phrosesau atgyfeirio fod heb eu datblygu'n ddigonol.	☐ Caiff cyfleoedd ESOL lleol eu marchnata a'u hyrwyddo ar y cyd i ddysgwyr drwy gyfryngau digidol a ffisegol, drwy ddarparwyr ESOL a phartneriaid yn cynnwys gwasanaethau lleol a chyrff trydydd sector sydd mewn cysylltiad gyda grwpiau targed a all gyfeirio, atgyfeirio a rhoi chymorth ehangach. ☐ Caiff darpariaeth anffurfiol tebyg i sesiynau blasu ei chyflwyno mewn lleoliadau allestyn gyda phartneriaid cymunedol i gyrraedd ac ymgysylltu â dysgwyr o grwpiau targed allweddol. ☐ Caiff cyfrifoldeb arweiniol am allestyn cymunedol ESOL ei ffurfioli o fewn rolau staff (e.e. mapio sefydliadau a chynlluniau perthnasol, meithrin cysylltiadau gyda phartneriaid yn y gymuned a dynodi dysgwyr).	☐ Mae mannau mynediad lluosog, amrywiol ac wedi datblygu'n dda yn eu lle ar gyfer cyfeirio i'r ddarpariaeth i sicrhau cyrraedd i wahanol gymunedau targed a gweddu anghenion dysgwyr unigol. ☐ Caiff dysgwyr ESOL eu cefnogi gan arweinwyr allestyn i ymgymryd â rolau fel Llysgenhadon Dysgwyr a hyrwyddwyr dysgu. Maent yn gweithredu fel dolen hanfodol gyda darpar ddysgwyr, gan gasglu a rhannu gwybodaeth ar anghenion a rhwystrau dysgwyr a chymryd rôl arweiniol wrth hyrwyddo darpariaeth i'w cymheiriaid. Gallant gyd-gynhyrchu dulliau cyfathrebu a negeseuon i wella cyrraedd a pherthnasedd gyda cohortau targed.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Asesiad dechreuol a lleoliad			
☐ Yn dilyn asesiad dechreuol, gall dysgwyr wynebu oedi sylweddol wrth gael mynediad i ddarpariaeth addas. Gall dysgwyr gael eu rhoi ar restr aros ond bod yn aneglur am pryd y gallant ddechrau cwrs. ☐ Gall dysgwyr gael eu cyfeirio at ddarpariaeth arall a ffynonellau cymorth. ☐ Mae angen i ddysgwyr sy'n dymuno cael mynediad i ddarpariaeth arall ddilyn sawl asesiad dechreuol.	☐ Yn dilyn asesiad dechreuol, caiff dysgwyr na fedrir cynnig lle yn y tymor byr iddynt eu rhoi ar restr aros a chael gwybodaeth glir am y camau nesaf a phryd maent yn debygol o fedru ymuno â chwrs. ☐ Gellir gwneud ymholiadau ad hoc i geisio canfod lle i ddysgwyr ar gwrs addas gyda darparydd arall i ostwng amserau aros. Mae cael mynediad i gwrs gyda gwahanol ddarparydd yn golygu fod angen i ddysgwyr ddilyn asesiad dechreuol arall. ☐ Gall dysgwyr gael eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio at gyfleoedd ESOL anffurfiol i'w galluogi i barhau â'u dysgu iaith tra'u bod yn aros am le.	☐ Yn dilyn asesiad dechreuol, caiff dysgwyr na fedrir cynnig lle yn syth iddynt ar ddarpariaeth addas eu cefnogi fel mater o drefn i gael mynediad i ddarpariaeth arall i bontio'r bwlch nes gallant ddechrau (e.e. clwb sgwrsio), naill ai yn fewnol neu gyda phartner yn y gymuned. ☐ Mae darparwyr yn cydweithio i geisio gosod dysgwyr ar gyrsiau addas a lleihau amserau aros, ond nid oes asesiad dechreuol safonol.	☐ Mae dysgwyr yn cael mynediad i asesiad dechreuol safonol sy'n cynnwys lled y ddarpariaeth ar draws yr ardal leol ac yn dileu'r angen am asesiadau mynych ac ymweliadau lluosog i wahanol ddarparwyr. ☐ Caiff amserau aros ar gyfer dysgwyr i gael mynediad i ddarpariaeth addas ei lleihau drwy weithio partneriaeth effeithlon rhwng darparwyr a defnyddio dulliau darpariaeth arall (e.e. rollo ymlaen rowlio ffwrdd). ☐ Caiff data ar amserau aros ei ddadansoddi fel mater o drefn a'i adolygu i benderfynu ar y gweithredu sydd ei angen ar lefel darparydd a phartneriaeth. Caiff pwysau sy'n dod i'r amlwg ar gapasiti a galw heb ei ddiwallu eu dynodi a'i drin drwy gynllunio ar y cyd. Caiff canfyddiadau eu rhannu gyda darparwyr eraill/partneriaethau i hysbysu dealltwriaeth o batrymau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol o'r galw am ESOL a'r cyflenwad sydd ar gael.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad			
☐ Mae casglu a defnyddio data ar rwystrau i fynediad yn gyfyngedig. Mae asesiad dechreuol yn dynodi rhwystrau unigol i ddysgu. Fodd bynnag, caiff dull cyflenwi, amseriad a lleoliad darpariaeth ESOL ei benderfynu i raddau helaeth gan ystyriaethau trefniadol (e.e. argaeledd tiwtoriaid a lleoliad). ☐ Gall dysgwyr na fedrir darparu ar eu cyfer oherwydd rhwystrau ymarferol i fynediad (e.e. cymhwyster cyllid, cludiant neu ofal plant) gael eu cyfeirio'n anffurfiol at ddarparwyr eraill neu ffynonellau cymorth.	☐ Cesglir peth data ar rwystrau i fynediad (e.e. drwy waith gyda phartneriaid yn y gymuned, adborth o ymgysylltu â dysgwyr, dadansoddiad o setiau data lleol). ☐ Gellir defnyddio canfyddiadau i lywio datblygu darpariaeth newydd tebyg i sesiynau blasu mewn lleoliadau allestyn a chyfleoedd dysgu cyfunol. ☐ Caiff dysgwyr na fedrir darparu ar eu cyfer oherwydd rhwystrau ymarferol i fynediad eu cyfeirio at gymorth lle'n bosibl.	☐ Caiff data ar rwystrau i fynediad i gasglu a'i rannu fel mater o drefn gyda phartneriaid darparu ac atgyfeirio (e.e. drwy'r Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, rhwydweithiau REACH+). ☐ Caiff canfyddiadau eu dadansoddi i ddynodi bylchau ac anghenion na chânt eu diwallu a llywio cynllunio a datblygu ar y cyd a strategol o'r cynnig ESOL lleol. Gall rhai grwpiau allweddol barhau i wynebu rhwystrau ymarferol (e.e. oherwydd gofal plant, poblogaeth wasgaredig). ☐ Mae prosesau cyfeirio ac atgyfeirio wedi eu datblygu yn dda yn eu lle i gysylltu dysgwyr gyda chefnogaeth i fynd i'r afael â rhwystrau ymarferol i fynediad, lle nad yw hyn wedi ei sefydlu mewn darpariaeth.	☐ Caiff data o wahanol ffynonellau ar rwystrau i fynediad, bylchau ac anghenion heb eu diwallu ei ddadansoddi mewn modd systematig i osod camau gweithredu gwella. Mae llais dysgwyr ESOL yn llywio'r broses hon fel mater o drefn a gall gynnwys gwybodaeth o fodelau ymgysylltu â dysgwyr a arweinir gan ddysgwyr tebyg i Lysgenhadon Dysgwyr a hyrwyddwyr dysgu. ☐ Defnyddir canfyddiadau i hysbysu cynllunio, yn cynnwys penderfyniadau am leoliad, amseriad a modelau cyflenwi darpariaeth. ☐ Ymgysylltir yn rhagweithiol â darparwyr gwasanaethau lleol ehangach (e.e. cludiant), gyda'r nod o ddylanwadu ar eu penderfyniadau er mwyn mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad sy'n wynebu dysgwyr ESOL.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cwricwllwm hyblyg ac ymatebol			
☐ Mae gan ddysgwyr fynediad i ystod cyfyngedig o ddarpariaeth. Lle na all anghenion gael eu diwallu gan ddarpariaeth fewnol, gall dysgwyr gael eu cyfeirio at gyfleoedd eraill. ☐ Mae datblygiad cyfyngedig ar y cwricwllwm mewn ymateb i newid mewn anghenion dysgwyr. Efallai nad yw pynciau ac adnoddau bob amser yn berthnasol i anghenion a nodau cyfathrebu bywyd go iawn dysgwyr.	☐ Mae gan ddysgwyr fynediad i amrywiaeth o darpariaeth o ran math, model cyflenwi, lefel ac yn y blaen, i adlewyrchu anghenion rhai grwpiau targed allweddol. Lle na all anghenion gael eu diwallu drwy ddarpariaeth fewnol, caiff dysgwyr eu cyfeirio neu eu hatgyfeirio at gyfleoedd eraill, er y gall trefniadau fod yn anffurfiol neu anghyson. ☐ Mae peth datblygu ar y cwricwllwm yn digwydd mewn ymateb i newid mewn anghenion dysgwyr. Caiff pynciau ac adnoddau eu hysbysu gan ddealltwriaeth o anghenion a nodau cyfathrebu bywyd go iawn dysgwyr.	☐ Mae gan ddysgwyr fynediad i ystod amrywiol o ddarpariaeth sy'n anelu i ddiwallu anghenion grwpiau targed allweddol yn nhermau amseru, dwyster a lleoliad cyflenwi. Lle na fedrir diwallu anghenion yn fewnol, mae gwaith partneriaeth lleol yn cyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth addas. ☐ Caiff dyluniad a datblygiad y cwricwllwm eu gyrru gan ddealltwriaeth dda o anghenion cyfathrebu dysgwyr, y deilliannau a fwriedir a nodau cynnydd. ☐ Caiff cynnwys cyrsiau ei adolygu a'i ddiweddarau'n gyson i sicrhau ei fod yn adlewyrchu anghenion cyfredol dysgwyr. Caiff ei lywio gan dystiolaeth o ystod o ffynonellau (e.e. adborth gan bartneriaid cymunedol, ymgysylltu â dysgwyr, setiau data lleol).	☐ Mae gan ddysgwyr fynediad i gymysgedd addas o ddarpariaeth gyfoethog ac amrywiol, yn cynnwys modelau hyfyw ar gyfer dysgwyr mewn ardaloedd gyda galw isel (e.e. gwledig, arfordirol). Lle na all anghenion gael eu diwallu yn fewnol, mae llwybrau atgyfeirio cadarn yn eu lle i ddarpariaeth addas. ☐ Mae dull gweithredu ystwyth, a yrrir gan ddata ac sy'n canoli ar y dysgwyr at ddatblygu'r cwricwllwm yn cefnogi cyflogadwyedd, integreiddio a llesiant (e.e. drwy lythrennedd digidol, paratoadau galwedigaethol a sgiliau bywyd sydd wedi eu sefydlu).

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Addysgu, dysgu ac asesu sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr			
☐ Mae ansawdd profiadau ddysgu ac asesu ESOL yn cyflawni gofynion Estyn. ☐ Gall tiwtoriaid fod â chefnogaeth gyfyngedig i ddynodi ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth. ☐ Gwneir defnydd cyfyngedig o dechnoleg ddigidol yn yr ystafell ddosbarth i gefnogi cyflenwi wyneb i wyneb a galluogi dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer sgiliau digidol..	☐ Mae ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu ESOL yn adeiladu ar ofynion Estyn ac yn cynnwys elfennau o ddulliau penodol sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr (e.e. ESOL cyfranogol neu ystyriol o drawma). Mae eu defnydd yn adlewyrchu sgiliau a diddordebau tiwtoriaid unigol, yn hytrach na dyluniad strategol ar y cwricwllwm. ☐ Caiff dysgwyr a fyddai'n cael budd o gyfleoedd i gael mynediad i ddarpariaeth ar-lein eu cefnogi i wneud hynny, naill ai yn fewnol neu drwy lwybrau eraill. ☐ Gwneir peth defnydd o dechnoleg ddigidol yn yr ystafell ddosbarth i cefnogi cyflenwi wyneb i wyneb a galluogi dysgwyr i ddatblygu ac ymarfer sgiliau digidol.	☐ Defnyddir ystod addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr ar draws darpariaeth ESOL. Caiff eu defnydd ei gynllunio'n strategol fewn dyluniad a datblygu'r cwricwllwm, mewn ymateb i anghenion dysgwyr. ☐ Mae dysgwyr yn cael mynediad i ddarpariaeth wyneb i wyneb, cyfunol ac ar-lein, yn dibynnu ar eu hanghenion. Mewn darpariaeth gyfunol neu ar-lein, gwneir defnydd effeithlon o addysgeg ESOL briodol ar-lein.	☐ Caiff effeithlonrwydd gwahanol ddulliau ei werthuso a'i adolygu'n barhaus yng ngoleuni newid yn anghenion dysgwyr. Caiff modelau newydd eu datblygu neu fodelau presennol eu mireinio (e.e. drwy ymchwil gweithredu) a chaiff gwybodaeth ei lledaenu i gefnogi dysgu a datblygu ar draws y sector. ☐ Cynhelir trafodaethau strategol gyda phartneriaid am sut y gellir datblygu modelau cyflenwi eraill, yn cynnwys dysgu ar-lein, a'u gwneud ar gael yn gyson i fynd i'r afael ag anghenion dysgu iaith penodol (e.e. dysgu lefel uwch, darpariaeth ar gyfer swyddi penodol). Caiff gwybodaeth ei rhannu gyda darparwyr ledled Cymru a llywio adborth i Medr..

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr ESOL gydag anghenion ychwanegol			
☐ Nid yw asesiad dechreuol yn dynodi anghenion dysgu ychwanegol mewn modd systematig. ☐ Gall tiwtoriaid fod â chefnogaeth gyfyngedig i ddynodi ac ymateb i anghenion dysgu ychwanegol yn yr ystafell ddosbarth.	☐ Mae dulliau cyson a chadarn yn eu lle i geisio dynodi anghenion dysgu ychwanegol yn yr asesiad dechreuol a hefyd yn yr ystafell ddosbarth. ☐ Caiff rhai anghenion eu dynodi ac ymatebir iddynt yn effeithlon a mae dysgwyr yn derbyn y gefnogaeth briodol (e.e. anabledau corfforol, amhariadau synhwyrdd). Fodd bynnag, gall fod bylchau yng nghyswllt rhai anabledau a gwahaniaethau dysgu ac mae'r mathau o gefnogaeth sydd ar gael yn gyfyngedig.	☐ Caiff ystod eang o anghenion dysgu ychwanegol eu dynodi a'u cefnogi mewn modd systematig, yn cynnwys anabledau penodol ac anawsterau dysgu. ☐ Mae ystod eang ac ymatebol o gefnogaeth yn ei le (e.e. cefnogaeth ystafell ddosbarth, hyfforddi/cefnogi athrawon i wahaniaethu a gweithredu ymarfer cynhwysol yn yr ystafell ddosbarth).	☐ Caiff pob tiwtor a'r staff eu hyfforddi a'u cefnogi fel mater o drefn i sicrhau y gallant ddynodi yn effeithlon y dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (e.e. drwy ddatblygu strategaethau addysgu cynhwysol wedi eu targedu ar gyfer myfyrwyr ESOL amrywiol a niwroamrywiol). ☐ Datblygwyd ymarfer effeithlon i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol a chaiff hyn ei gydnabod a'i rannu ar draws y sector ESOL yn ehangach.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cymraeg i Siaradwyr leithoedd Eraill (WSOL)			
Caiff tiwtoriaid ESOL eu cefnogi i sefydlu peth ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru mewn dosbarthiadau.	Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaeth ESOL yn cynnwys WSOL a dysgu am ddiwylliant Cymru. Caiff cyrsiau blasu WSOL eu cyflenwi mewn lleoliadau allestyn gan eu tiwtor eu hunain neu mewn partneriaeth gyda darparydd Dysgu Cymraeg y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Yn achlysurol cynigir gweithgareddau cyfoethogi ESOL sy'n cynnwys ymweliadau i leoedd o ddiddordeb dinesig, hanesyddol neu ddiwylliannol (e.e. safleoedd Amgueddfa Cymru, Senedd Cymru, Cadw, parciau cenedlaethol).	Cafodd WSOL a dysgu am ddiwylliant Cymru ei sefydlu ar draws holl ddarpariaeth ESOL. Caiff rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau cyfoethogi ESOL, gyda ffocws ar ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, ei gynnwys mewn modd systematig i mewn ac mae'n gydnaws gyda'r cynnig cwricwlwm. Mae dysgwyr ESOL yn cael mynediad i ddarpariaeth neilltuoel i gyflwyno WSOL.	Mae'r cynnig WSOL yn cynnwys defnyddio adnoddau pontio, gan arwain at gynnydd i ddarpariaeth Dysgu Cymraeg. Mae dysgwyr WSOL yn cael mynediad i gyfleoedd anffurfiol i gysylltu gyda phobl leol sydd hefyd yn dysgu Cymraeg (e.e. clybiau sgwrsio). Cynhelir trafodaethau strategol gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r darparydd Dysgu Cymraeg lleol i ddatblygu cyfleoedd i gyflwyno dysgu ESOL mewn darpariaeth Dysgu Cymraeg.

Nodiadau:

8 Addysgu, dysgu a chwricwlwm Ffocws: Ansawdd a pherthnasedd yr hyn a gyflenwir Dyddiad:			
Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Ymgysylltu â dysgwyr			
☐ Defnyddir dulliau adborth safonol ar draws pob grŵp dysgwyr, gydag addasu neu gefnogaeth gyfyngedig i ddiwallu anghenion dysgwyr ESOL. ☐ Mae dysgwyr ESOL yn absennol gan fwyaf o gyfranogiad mewn cyfleoedd ar y cyd i ymgysylltu â dysgwyr tebyg i fforymau dysgwyr a grwpiau ffocws. ☐ Mae cyfleoedd cyfyngedig i ddysgwyr ESOL i gyfrannu at ddatblygu ac adolygu'r Ymrwymiad i Ymgysylltu â Dysgwyr a gyhoeddwyd fel sy'n ofynnol o fewn fframwaith rheoleiddiol Medr a nodir yn y <u>Cod Ymgysylltu â Dysgwyr</u>.	☐ Caiff peth cefnogaeth ychwanegol a theilwra eu cynnig i hyrwyddo dull gweithredu cynhwysol a sicrhau y gall dysgwyr ESOL roi adborth ystyrlon drwy ddulliau unigol (e.e. arolygon, gwerthusiad ar ddiwedd cwrs). ☐ Caiff dysgwyr ESOL ychwanegol eu dynodi sydd â sgiliau iaith eisoes i gymryd rhan mewn cyfleoedd ar y cyd i ymgysylltu â dysgwyr ac i gyfrannu at yr Ymrwymiad i Ymgysylltu â Dysgwyr a gyhoeddwyd.	☐ Mae ymgysylltu â dysgwyr yn dangos diwylliant o gynhwysiant. Cynigir cymorth wedi ei dargedu a'i deilwra (e.e. gwirfoddolwyr amlieithog, deunyddiau mewn ieithoedd cymunedol, gwaith gyda phartneriaid cymunedol) i annog dysgwyr ESOL i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau drwy ddulliau unigol a hefyd ar y cyd. ☐ Defnyddir y gefnogaeth hon hefyd i ymgysylltu â dysgwyr ESOL wrth ddatblygu ac adolygu'r Ymrwymiad i Ymgysylltu â Dysgwyr a gyhoeddwyd. ☐ Wrth gloi'r ddolen adborth, caiff adborth i ddysgwyr ESOL ei deilwra fel sy'n addas i sicrhau eu bod yn gwybod sut mae eu mewnbwn wedi dylanwadu ar benderfyniadau, neu os na fydd hyn yn bosibl, yna eu bod yn clir pam hynny. ☐ Gwneir darpariaeth benodol i sicrhau fod dysgwyr ESOL yn cael cyfleoedd i gyfrannu at ddatblygu ac adolygu'r ymrwymiad i ymgysylltu â dysgwyr a gyhoeddwyd, yn unol â'r <u>Cod Ymgysylltu â Dysgwyr</u>.	☐ Mae ymgysylltu â dysgwyr yn rhagweithiol wrth feithrin cynhwysiant a pherthyn ar gyfer dysgwyr ESOL. Cânt eu recriwtio'n fwriadol a'u cefnogi i gymryd rhan mewn dulliau ar y cyd dan arweiniad dysgwyr tebyg i Lysgenhadon Dysgwyr a hyrwyddwyr dysgu cymunedol.. ☐ Caiff byrddau Ymgynghorol Dygwyr ESOL eu cefnogi i alluogi dysgwyr ESOL i roi eu barn mewn ffyrdd ystyrlon – gyda rhai cwestiynau gyda ffocws am eu profiad o ddylunio, cyflenwi, hygyrchedd a chynnydd y cwricwlwm. Caiff y bwrdd ei hwyluso gan diwtor neu gynrychiolydd dysgwyr dibynadwy. ☐ Caiff canfyddiadau ymgysylltu â dysgwyr ESOL a hefyd effeithlonrwydd y dulliau a ddefnyddiwyd eu hadolygu mewn modd systematig a'u hadrodd i'r timau Arweinyddiaeth ac i grŵp cwricwlwm y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned a'r grŵp ymgysylltu â dysgwyr i ddynodi themâu a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Diffinio a chynllunio deilliannau			
☐ Asesiad dechreuol a thrafodaeth barhaus gyda phob dysgwr yn dynodi nodau dysgu iaith a chynnydd unigolion. ☐ Rhoddir peth sylw i ddynodi'r deilliannau personol a chymdeithasol ehangach sy'n bwysig i ddysgwyr, drwy ymgysylltu â dysgwyr a gwaith gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ESOL, er y gall hyn fod yn ddarniog. ☐ Caiff dyluniad a datblygiad y cwricwlwm ei lywio'n bennaf gan ofynion asesiadau/cymwysterau.	☐ Caiff gosod nodau ac adolygiadau cynnydd eu cynnal yn gyson gyda phob dysgwr. ☐ Mae ymgysylltu â dysgwyr a gwaith gyda phartneriaid a rhanddeiliaid ESOL yn anelu deall yr anghenion cyfathrebu a deilliannau personol a chymdeithasol y mae dysgwyr eu hangen ac yn eu gwerthfawrogi. ☐ Defnyddir dealltwriaeth o ddeilliannau, dymuniadau a nodau cynnydd dysgwyr i lywio dyluniad a datblygiad parhaus ar y cwricwlwm.	☐ Mae fframwaith cadarn yn ei le sy'n cydnabod lled ac amrywiaeth deilliannau dysgu a, deilliannau personol a chymdeithasol ehangach a nodau cynnydd, yn cynnwys cyflogaeth, sy'n bwysig i wahanol grwpiau o ddysgwyr ESOL. Mae hyn yn sail i sefydlu y deilliannau a fwriedir i ddyluniad a datblygiad y cwricwlwm a chaiff ei adolygu a'i ddiweddarau yn gyson i roi ystyriaeth i'r newidiadau yn anghenion dysgwyr ac anghenion sy'n dod i'r amlwg. ☐ Mae cynnig cyffredinol ESOL yn effeithlon wrth fynd i'r afael â nodau dysgwyr unigol o ran dysgu iaith, deilliannau personol a chymdeithasol ehangach a chynnydd, yn cynnwys drwy atgyfeirio a chyfeirio at ffynonellau allanol o ddysgu a chefnogaeth lle mae hyn yn briodol.	☐ Caiff nodau cynnydd unigol dysgwyr yng nghyswllt addysg a chyflogaeth eu cefnogi'n effeithlon drwy gymorth wedi ei deilwra a'i dargedu, yn cynnwys cydnabod dysgu blaenorol, sgiliau a chyflogaeth. ☐ Mae llwybrau atgyfeirio a chyfeirio cadarn yn eu lle i asiantaethau allanol a all roi cymorth arbenigol lle mae angen hyn (e.e. gyda chydabod cymwysterau tramor). ☐ Caiff canfyddiadau dadansoddiad data deilliannau eu defnyddio i lywio datblygiad cwricwlwm parhaus, i sicrhau fod darpariaeth yn ateb anghenion dysgwyr.

Nodiadau:

Dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Mesur deilliannau a chynnydd dysgwyr			
☐ Mae dibyniaeth ar ddata deilliannau ansoddol a dulliau cyffredinol tebyg i arolygon boddhad dysgwyr. Gall galluedd y sefydliad i gasglu data ansoddol fod yn gyfyngedig. ☐ Efallai nad yw deilliannau rhannol a chynnydd heb fod yn llinellog yn cael eu hadnabod a'u casglu. ☐ Nid oes unrhyw rannu data gyda darparwyr eraill i olrhain cynnydd dysgwyr.	☐ Caiff data ei gasglu ar ddeilliannau personol a chymdeithasol ehangach dysgwyr, gyda pheth teilwra ar ddulliau cyffredinol i gynnwys y deilliannau penodol a werthfawrogir gan ddysgwyr ESOL (e.e. perthyn, annibyniaeth, cyfranogiad yn y gymuned). ☐ Caiff rhai deilliannau rhannol a chynnydd heb fod yn llinellog eu cydnabod, yn unol â nodau a dymuniadau dysgwyr. ☐ Caiff trefniadau ar gyfer rhannu data gyda darparwyr allweddol eraill eu hymchwilio er mwyn gwella olrhain cynnydd dysgwyr.	☐ Caiff data o ystod o ffynonellau meintiol ac ansoddol ei gasglu, coladu a'i ddadansoddi mewn modd systemig i gael dealltwriaeth eang o'r deilliannau dysgu a'r deilliannau personol a chymdeithasol ehangach a gaiff gwahanol grwpiau o ddysgwyr ESOL. ☐ Mae dulliau casglu data yn dangos y deilliannau personol a chymdeithasol neilltuol a werthfawrogir gan ddysgwyr ESOL. ☐ Caiff deilliannau rhannol a chynnydd heb fod yn llinellog eu cydnabod fel mater o drefn, yn unol â nodau a dymuniadau dysgwyr. ☐ Mae trefniadau rhannu data yn eu lle gyda darparwyr eraill i alluogi olrhain cynnydd dysgwyr.	☐ Caiff data deilliannau ar gyfer dysgwyr ESOL eu hadolygu mewn modd systemig a'u rhannu ar lefel partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i ddynodi cyfleoedd ar gyfer cryfhau deilliannau a chynnydd ac i dynnu sylw i faterion o gonsyrn neu gyfle i Medr neu asiantaethau eraill.

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cefnogi cynnydd			
☐ Nid yw cynllunio cynnydd ar gyfer dysgwyr ESOL yn ddigon strategol. ☐ Nid yw mapio a datblygu llwybrau cynnydd wedi eu datblygu yn ddigonol. ☐ Nid yw cynnydd cysylltiedig â gwaith a chynnydd cyflym ar gyfer dysgwyr lefel uchel (e.e. gweithwyr proffesiynol) yn cael cefnogaeth ddigonol.	☐ Cafodd mapiau cynhwysfawr ar gyfer cynnydd ESOL eu datblygu mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill a rhanddeiliaid, sy'n dynodi ystod a lefel y cyrsiau a gyflenwir ar draws sefydliadau a llwybrau drwy ac ymlaen ohonynt. ☐ Mae gwybodaeth am lwybrau cynnydd mewnol ac allanol posibl ar gyfer dysgwyr ESOL ar gael i staff rheng flaen, tiwtoriaid a dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dysgu pellach a galwedigaethol, addysg uwch, gwirfoddoli a chefnogaeth cyflogaeth. ☐ Caiff dysgwyr ESOL eu cefnogi i adnabod sgiliau meddal/generig a chyflogadwyedd a enillir.	☐ Caiff gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ei ymwreiddio ym mhob darpariaeth ESOL i sicrhau fod dysgwyr yn deall y cyfleoedd sydd ar gael iddynt ac y cânt eu cefnogi i ystyried y camau nesaf a dynodi unrhyw anghenion cymorth penodol. ☐ Mae tiwtoriaid ESOL yn deall yr ystod lawn o lwybrau cynnydd o'u cyrsiau ac yn rhagweithiol wrth gynghori a chyfeirio pob dysgwr mewn modd addas. ☐ Lle mae hynny'n addas, mae cymorth cynnydd yn cynnwys sesiynau cynnydd ymarferol, a gaiff eu cynllunio a'u cyflwyno gyda phartneriaid i baratoi a galluogi dygwyr i symud ymlaen o ddarpariaeth seiliedig yn y gymuned i addysg bellach ac addysg uwch (e.e. sgysiau, triplau coleg). ☐ Caiff amlieithrwydd ei werthfawrogi a chaiff dysgwyr eu cefnogi i adnabod a manylu sut y gellid gwella eu cyflogadwyedd drwy eu sgiliau mewn ieithoedd eraill ynghyd â Saesneg. ☐ Caiff cynnydd cysylltiedig â gwaith ei gefnogi mewn modd systemig, yn unol â nodau unigol dysgwyr (e.e. sgiliau cyflogadwyedd a galwedigaethol wedi ymwreiddio/mewn cyd-destun; cefnogaeth i sicrhau cydnabyddiaeth o gymwysterau presennol drwy UK ENIC; atgyfeiriad i wasanaethau cyflogi ffoaduriaid, atgyfeiriad i Cymru'n Gweithio neu Busnes Cymru i gefnogi hunan-gyflogaeth, mentora).	☐ Mae gan ddysgwyr ESOL ar bob lefel lwybr clir o'u man mynediad ymlaen i ddarpariaeth i nodau dysgu a chyflogaeth. ☐ Caiff cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol ei ymwreiddio a'i ddefnyddio i gynyddu hyder dysgwyr yn eu sgiliau presennol a'u dysgu a chefnogaeth. ☐ Mae darpariaeth carlam, dwys a symud cyflymach rhwng lefelau ar gael i gefnogi dysgwyr a all fanteisio o hynny. ☐ Mae'r cynnig cwricwlwm yn cydnabod ac yn ymateb i amrywiaeth anghenion dysgwyr yng nghyswllt cynnydd (e.e. gwahanol gyflymder a dwyster dysgu, ymyriadau penodol i gefnogi dysgwyr ADY i sicrhau cynnydd). ☐ Mae ymgysylltu â chyflogwyr yn cynnwys ffocws penodol ar gefnogi cynnydd cysylltiedig â chyflogaeth i ddysgwyr ESOL (e.e. cysylltu dysgwyr gyda chyfleoedd lleol, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyda ffocws ar waith, datblygu profiad gwaith a chyfleoedd mentora). ☐ Mae cysylltiadau yn eu lle gydag asiantaethau sy'n cynnig cefnogaeth arbenigol ar gyflogaeth i ffoaduriaid (e.e. Rhwydwaith Cyflogaeth Ffoaduriaid, Chwalu Rhwystrau).

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Trefniadau partneriaeth			
☐ Mae gweithio partneriaeth anffurfiol yn digwydd gyda darparwyr ESOL lleol eraill a rhanddeiliaid.	☐ Mae peth cydweithio gyda darparwyr ESOL a rhanddeiliaid eraill ar gynllunio a chyflenwi darpariaeth drwy drefniadau ffurfiol (e.e. Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, REACH+). ☐ Mae peth rhannu adnoddau, yn cynnwys lleoliadau, yn digwydd mewn ymateb i anghenion penodol.	☐ Caiff cynllunio a chyflenwi darpariaeth ESOL wedi ei gydlynw ei wneud gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill drwy drefniadau ffurfiol (e.e. Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned, REACH+). ☐ Mae partneriaid yn cydweithio i ddynodi cyfleoedd a chynllunio'n strategol i rannu adnoddau, yn cynnwys lleoliadau, i wella mynediad ac effeithiolrwydd.	☐ Caiff arweinyddiaeth strategol leol ar gyfer ESOL ei darparu gan grŵp arbennig ar gynllunio'r cwricwlwm o fewn y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned sy'n adolygu holl ddarpariaeth ESOL o fewn yr ardal leol (yn cynnwys darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol yn y gymuned, cynigion addysg bellach ac addysg uwch) i ddynodi bylchau, dyblygu, cyfleoedd a risgiau, cynllunio darpariaeth a pharatoi uchafbwyntiau adroddiad ar gyfer Medr).

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Cynllunio'r cynnig lleol			
☐ Caiff y cynnig ESOL ei seilio ar batrymau cyflenwi hanesyddol ac mae'n gwneud defnydd cyfyngedig o ddata a gwybodaeth cyfredol. ☐ Nid oes fawr neu ddim cynllunio cwricwlwm gyda darparwyr ESOL eraill lleol neu ran-ddeiliaid.	☐ Defnyddir data a gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i ddeall patrymau anghenion dysgwyr. Caiff hyn eu rhannu gyda darparwyr ESOL eraill a rhanddeiliaid i ddynodi bylchau a dyblygu. ☐ Mae peth rhannu ar gynllunio darpariaeth gyda darparwyr ESOL lleol eraill, yn cynnwys partneriaid yn y trydydd sector sy'n cynnig cyfleoedd dysgu anffurfiol.	☐ Caiff data ar batrymau angen o amrywiaeth o ffynonellau eu casglu a'u rhannu fel mater o drefn gyda darparwyr ESOL eraill a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ar y farchnad lafur, data ar ailsefydlu ffoaduriaid a gwybodaeth ansoddol gan wasanaethau lleol ar bartneriaid ar gohortau newydd o ddysgwyr ac anghenion sy'n dod i'r amlwg. Cynhelir mapio a monitro ar ddarpariaeth ffurfiol ac anffurfiol lleol i ddynodi anghenion sy'n dod i'r amlwg a mynd i'r afael â dyblygu a bylchau. ☐ Caiff cynllunio a datblygu cynnig ESOL ei wneud ar y cyd gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill i sicrhau fod llwybrau cynnydd effeithlon yn eu lle, drwy ac ymlaen o ddarpariaeth partneriaid.	☐ Gwneir defnydd da o ddata cyfredol o amrywiaeth o ffynonellau yn cynnwys gwybodaeth ar y farchnad lafur a gwybodaeth gan bartneriaid i gynllunio darpariaeth. Defnyddir dealltwriaeth o weithgareddau partneriaid ar ymgysylltu â defnyddwyr fel mater o drefn fel sail i gynllunio. ☐ Caiff darpariaeth ei chynllunio'n strategol ac ar y cyd gyda darparwyr ESOL eraill a rhanddeiliaid. Gall dysgwyr gael mynediad i lwybrau mynediad a chynnydd amrywiol ac addas a phontio'n effeithlon i, drwy ac ymlaen o ESOL prif ffrwd, i fathau eraill o ddysgu iaith a darpariaeth addysg a sgiliau ehangach. ☐ Caiff data ei ddefnyddio'n effeithlon i ragweld ac ymateb yn gyflym i anghenion newydd ac sy'n dod i'r amlwg.

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Recriwtio a chadw			
☐ Efallai nad oes gan rhai tiwtoriaid ESOL gymhwyster addysgu neu heb fod wedi paratoi'n benodol ar gyfer addysgu ESOL. ☐ Yn nodweddiadol mae gan diwtoriaid ESOL delerau cyflogaeth llai sicr, tebyg i gontractau sesiwn a dim oriau. ☐ Caiff gwirfoddolwyr ESOL eu recriwtio o fewn y cymunedau targed.	☐ Mae gan bob tiwtor ESOL gymhwyster mewn addysgu Saesneg neu disgwylir iddynt fod yn gweithio at hyn. ☐ Caiff tiwtoriaid sesiwn ESOL gynnig contractau oriau blynyddol fel mae adnoddau yn caniatáu. Gall recriwtio tiwtoriaid sesiwn fod wedi ei gyfyngu i achosion lle dynodwyd angen penodol (e.e. arbenigedd addysgu arbenigol, llanw staff). Lle'n bosibl, defnyddir contractau cyflogedig ffracsiynol	☐ Caiff tiwtoriaid ESOL heb hyfforddiant pwnc arbenigol ESOL eu cefnogi i gael mynediad i hyfforddiant allanol wedi ei strwythuro, fel mae adnoddau'n caniatáu. ☐ Mae uwch arweinwyr yn edrych am gyfleoedd wedi'u cyllido i ddynodi a sicrhau cymwysterau penodol ESOL ar gyfer eu gweithlu/darpar weithlu.	☐ Caiff anghenion hyfforddiant penodol ESOL y gweithlu eu hadolygu'n strategol ac mae canfyddiadau'n sail i drafodaeth ac adolygiadau gyda Medr ac asiantaethau eraill. ☐ Rhoddir sylw i gynllunio olyniaeth a chynnydd tiwtoriaid er mwyn cefnogi cadw a lleihau tarfu ar y gwasanaeth. Lle'n bosibl, caiff cyfleoedd cynnydd eu dynodi (e.e. tiwtor arweiniol, gweithiwr datblygu) a chaiff tiwtoriaid eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth i symud i'r swyddi hyn fel mae cyfleoedd yn codi.

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)			
☐ Gellir cynnig peth DPP anffurfiol, ad hoc ar gyfer tiwtoriaid ESOL lle dynodir angen penodol drwy weithgareddau gwella ansawdd. ☐ Ni chaiff staff addysgu mewn pynciau eraill sydd â dysgwyr ESOL yn eu dosbarthiadau (e.e. tiwtoriaid Mathemateg, Digidol a sgiliau galwedigaethol) eu cefnogi fel mater o drefn i ddatblygu'r wybodaeth a sgiliau penodol i'w cefnogi yn effeithlon. ☐ Gwirfoddolwyr ESOL i dderbyn ymsefydlu a chael mynediad i gyswllt a enwyd a all eu cefnogi'n anffurfiol yn y rôl.	☐ Mae gan bob tiwtor ESOL fynediad i gynnig DPP wedi'i strwythuro a gaiff ei lywio gan ganfyddiadau gweithgareddau gwella ansawdd ac anghenion grwpiau allweddol o ddysgwyr (e.e. ffoaduriaid a phobl yn ceisio lloches, dysgwyr newydd i ESOL. ☐ Gall staff addysgu mewn pynciau eraill a all fod â dysgwyr ESOL yn eu dosbarthiadau fod â mynediad i gyfleoedd DPP i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth i gefnogi'r dysgwyr hyn yn fwy effeithlon. Mae rhaglen wedi ei strwythuro ar gyfer ymsefydlu, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i wirfoddolwyr ESOL yn ei lle, dan arweiniad aelod o staff gyda chydlynu gwirfoddolwyr yn rhan o'i swydd. ☐ Mae darparwyr sy'n cyflenwi ESOL ar draws y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn cydweithio i gynnig cyfleoedd DPP ar y cyd i reolwyr, tiwtoriaid, aelodau eraill o staff a gwirfoddolwyr lle caiff anghenion a gaiff eu rhannu eu dynodi.	☐ Mae cynnig DPP gyda ffocws ar ESOL ar gyfer tiwtoriaid ESOL a staff eraill sy'n gweithio gyda dysgwyr ESOL wedi ei ymwreiddio mewn cylchoedd ansawdd a chynllunio a'i lywio gan dystiolaeth o angen gan ddysgwyr, partneriaid a sicrwydd ansawdd a gweithgareddau gwella ansawdd. ☐ Caiff cymryd rhan mewn gweithgareddau DPP ei gynnwys ym mhob contract tiwtor, yn cynnwys contractau sesiwn a contractau 'achlysurol' eraill gydag adnoddau priodol. ☐ Lle mae mynediad i'r Gronfa Dysgu Proffesiynol, mae cynllunio i asesu'r angen am hyfforddiant penodol mewn ESOL ar gyfer tiwtoriaid a galluogi rhaeadru hyn a'i rannu'n ehangach. ☐ Caiff tiwtoriaid ESOL eu hannog a'u cefnogi i gymryd rhan yn <u>NATECLA Cymru</u>. ☐ Caiff gwirfoddolwyr ESOL eu cefnogi drwy raglen wedi ei strwythuro sy'n cynnwys cefnogaeth i ddynodi nodau unigol a datblygu ac adolygu cynnydd ar gynllun gweithredu datblygu personol.	☐ Caiff cyfleoedd eu dynodi ar gyfer mynediad ac i gyfrannu at hyfforddiant gweithlu a gyllidir yn allanol a rhannu gwybodaeth, yn rhanbarthol, cenedlaethol ac ar draws y Deyrnas Unedig (e.e. drwy'r Bartneriaeth Mudo Strategol, rhwydwaith ESOL Cymru a digwyddiadau cenedlaethol datblygu ESOL). Caiff ymarfer, adnoddau dysgu a dysgu effeithlon eu rhannu i gefnogi gwelliant ar draws y sector. ☐ Caiff gwirfoddolwyr ESOL sydd â diddordeb mewn gyrfa addysgu eu cefnogi lle'n bosibl i ennill sgiliau a phrofiad perthnasol (e.e. fel cynorthwywyr cymorth dysgu) ac i ddilyn hyfforddiant athrawon arbenigol ESOL.

Nodiadau:

Yn dod i'r amlwg	Datblygu	Sefydledig	Arweiniol
Adnoddau a rhannu gwybodaeth			
☐ Mae peth rhannu anffurfiol ac ad hoc o adnoddau addysgu ymysg tiwtoriaid ESOL. ☐ Nid oes storfa ganolog o adnoddau dysgu, felly gall gwybodaeth a deunyddiau i gefnogi ymarfer effeithlon gael eu colli pan mae tiwtor yn gadael.	☐ Mae gan diwtoriaid fynediad i storfa ar-lein o adnoddau dysgu a gaiff eu rhannu tebyg i gynlluniau gwaith, cynlluniau gwersi ac adnoddau ystafell ddosbarth, yn cynnwys deunyddiau a ddatblygwyd yn genedlaethol i gefnogi gwaith gyda grwpiau allweddol (e.e. dysgwyr cyn-mynediad) ac ar themâu allweddol. ☐ Caiff tiwtoriaid eu hannog i gyfrannu deunyddiau y profwyd eu bod yn gweithio i dyfu'r storfa, rhannu dulliau gweithredu a sicrhau y caiff adnoddau i gefnogi ymarfer effeithlon eu cadw pan fo staff yn symud ymlaen.	☐ Caiff dysgu o hyfforddiant gyda ffocws ESOL a geir drwy'r Gronfa Dysgu Proffesiynol ei raeadru fel mater o drefn gan bartneriaid y coleg i ddarparwyr eraill yn y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned.	☐ Caiff cyfleoedd ar gyfer dysgu a rhannu gwybodaeth ymysg cymheiriaid eu meithrin ymysg tiwtoriaid ESOL yn fewnol a/neu ar draws y Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned i gefnogi arloesedd (e.e. addysgeg amlieithog, dulliau cyfranogol) drwy ddatblygu a chefnogi rhwydwaith ymarferwyr neu fentora cymheiriaid.

Nodiadau:

Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith yn gorff polisi ac ymchwil annibynol gyda ffocws ar ddysgu gydol oes a gwaith gwell.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas deg a llewyrchus lle mae dysgu a gwaith yn galluogi pawb i wireddu eu potensial. Ymchwiliwn yr hyn sy'n gweithio, dylanwadu ar bolisi a datblygu syniadau newydd i wella ymarfer. Gweithiwn gydag ystod eang o bartneriaid a chyllidwyr i gyflawni ein gweledigaeth o gymdeithas lewyrchus a theg lle mae dysgu a gwaith yn rhoi cyfleoedd i bawb wireddu eu potensial ac uchelgais drwy gydol eu bywyd.

<https://learningandwork.org.uk/cy/>

Mae Medr yn gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid i alluogi system addysg drydyddol ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb, ac ymgysylltiad yn greiddiol iddi.

<https://www.medr.cymru/en/>